Cymru Wales




# Adnodd dysgu

## Tom Barrance

LEARNABOUT film

ysgrifennwyd gan
**Tom Barrance**

cyhoeddwyd gan
**Ffilm Cymru Wales**

LEARNABOUT film

Diolch i
**Dylan Goch, Catryn Ramasut a Gruff Rhys,**
ac i **Cath Davies** am ei awgrymiadau a chyngor

ffilm CYMRU WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Cynnwys




| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **5** |
| **Separado! yn y cwricwlwm** | **6** |
| **Golygfeydd allweddol** | **8** |
| **Syniadau gwneud ffilmiau** | **12** |
| **Ffilm a storïau** | **14** |
| **Cysylltau** | **20** |


 © 2015 Ffilm Cymru Wales 




*Rhan o storifwrdd gwreiddiol Gruff Rhys i'r dilyniant agoriadol*

# Cyflwyniad

Ffilm gan y cyfarwyddwr Dylan Goch a'r cerddor Gruff Rhys yw Separado!, a ryddhawyd yn 2010.

Mae Separado! yn dilyn Gruff wrth iddo deithio i Dde America i geisio dod o hyd i Rene Griffiths, perthynas pell o'r Ariannin a arferai ganu ar deledu Cymru yn gwisgo poncho. Bu i un o hynafiaid Rene adael Cymru yn y 19eg ganrif ynghanol llu o sibrydion drwg am dwyllo mewn ras geffylau. Mae Gruff yn cwrdd â nifer o gymeriadau diddorol, talentog ac ecsentrig wrth iddo ddysgu am hanes Cymru a'r cysylltiadau hanesyddol sy'n bodoli rhwng Cymru a Brasil a'r Ariannin.

Gallwch ddefnyddio'r ffilm i archwilio nifer o bynciau a materion gwahanol, ac i ysgogi ysgrifennu, cyfansoddi cerddoriaeth a chreu ffilm. Mae'r ffilm yn arbennig o ddefnyddiol gan ei bod yn cynnwys sawl dilyniant byr yn seiliedig ar leoliadau a phynciau penodol, felly mae'n hawdd i'w defnyddio fesul darn.

Mae'r adnodd hwn, a ariennir gan Ffilm Cymru Wales ac a ysgrifennwyd gan Tom Barrance, yn cynnwys gwybodaeth am y ffilm, syniadau ar sut i'w defnyddio gyda'r cwricwlwm, rhestr o olygfeydd allweddol, ffyrdd o ddefnyddio'r dilyniant agoriadol i ddysgu iaith ffilm, a syniadau am sut i wneud ffilm.

## Gwneud Separado!

Dysgodd Gruff Rhys am hanes Rene Griffith, a sut mae'n perthyn iddo, gan ei fam pan oedd yn blentyn. Ei fwriad oedd ysgrifennu llyfr neu draethawd amdano. Ond yn 2005 cysylltodd â Dylan Goch – oedd eisoes wedi cyfarwyddo ffilmiau i fand Gruff, y Super Furry Animals – er mwyn gwneud ffilm.

Aeth Gruff a'i bartner, Catryn Ramasut, i wneud ychydig o ffilmio cychwynnol ac i gynnal 'recce' yn 2006, diolch i rywfaint o nawdd gan Sony, ac ariannwyd y gwaith golygu gan Asiantaeth Ffilm Cymru [Ffilm Cymru Wales erbyn hyn]. Seiliwyd y ffilm ar fwrdd stori a grëwyd gan Gruff ei hun.

Bu iddynt barhau i olygu'r ffilm tra'n gweithio ar brosiectau eraill er mwyn ennill arian. Saethwyd y ffilm gan ddefnyddio'r criw lleiaf posib, Gruff, Dylan a Catryn, a dyn sain a chynorthwy-ydd cynhyrchu, gyda Dylan yn saethu a Catryn weithiau'n gweithredu ail gamera.

Saethwyd tua 80 awr o ffilm, gan ddefnyddio dau brif gamera, camera bach a chamera ffilm Super 8. Mae angen cryn dipyn o ddeunydd ar y math yma o ffilm 'arsylwadol' (er bod ganddynt fwrdd stori) oherwydd all neb fod yn siŵr beth all ddigwydd.

*"Mae'n bwysig i gael cynllun* ac *i fod yn hyblyg."* (Dylan)

Treuliwyd 5 mlynedd yn gwneud y ffilm, ac roedd yn uchelgeisiol iawn gan fod y gyllideb mor fach. Roedd yn anodd ei hyrwyddo, ond cafodd ei rhyddhau'n llwyddiannus mewn sinemâu yn y DU ac yn Iwerddon: nid yw'r rhan fwyaf o ffilmiau sy'n cael eu gwneud yn cael eu dangos mewn sinemâu o gwbl. Roedd yn waith anodd sicrhau fod y ffilm yn cael ei derbyn i wyliau, ond yn y pen draw fe'i derbyniwyd gan ŵyl cerddoriaeth ffilm yng Nghanada, gyda nifer o wyliau eraill wedyn yn dilyn, ac enillodd gwobr gerddoriaeth y Copenhagen Docs.

*"Does dim rhaid cael cyfarwyddwr. Does dim rhaid cael cynhyrchydd. Efallai mae'r termau 'na braidd yn archaig yn y byd digidol. Gallech chi jyst creu, yn yr un ffordd rydych chi'n gallu recordio caneuon heb canu unrhyw offer. Y syniad a'r stori sy'n bwysig."* (Gruff)

*Yn seiliedig ar gyfweliad gyda Dylan Goch, Catryn Ramasut a Gruff Rhys.*

## Gwylio pellach

Mae Separado! yn **ddogfen gan awdur** (authored documentary), ble mae'r sawl sy'n gwneud neu'n cyflwyno'r ffilm, yn chwarae rhan allweddol ynddi ac yn rhyngweithio â'r cyfranwyr. Gallwch ei chymharu â ffilmiau fel *Bowling for Columbine* a *Fahrenheit 9/11*, gan Michael Moore, *Kurt and Courtney* gan Nick Broomfield, *a Supersize Me* gan Morgan Spurlock.

Fel cyferbyniad llwyr, gallwch edrych ar enghreifftiau o **Sinema Uniongyrchol** sy'n ceisio cynrychioli realaeth yn uniongyrchol heb ddefnyddio cyfweliadau na throsleisio. Mae enghreifftiau cerddorol yn cynnwys *Dont Look Back* [sic] gan DA Pennebaker, am daith gyntaf Bob Dylan i'r DU, a *Gimme Shelter*, ffilm David ac Albert Maysles a Charlotte Zwerin am gyngerdd trychinebus y Rolling Stones yn Altamont.

Gallwch gymharu persona meddylgar Gruff Rhys yn Separado! gyda phortreadau hunanol, hedonistaidd sêr y byd roc mewn ffilmiau fel *Dig!* gan Ondi Timoner, am y gystadleuaeth rhwng dau o fandiau America, sef y Dany Warhols a'r Brian Jonestown Massacre.

Gallwch hefyd gyferbynnu Separado! fel ffilm ddogfen, gyda ffilm ffuglen ddiweddar Marc Evans, *Patagonia*.

# Separado! yn y cwricwlwm



Gallwch ddefnyddio Separado! wrth astudio gwahanol bynciau'r cwricwlwm o Gyfnod Allwedd 2 i fyny*. Mae'n cynnwys cyfleoedd i siarad, gwrando, deall ac i ysgrifennu creadigol a ffeithiol mewn gwersi Cymraeg a Saesneg; Daearyddiaeth; Hanes; astudiaethau Cymru, Ewrop a'r Byd; ac astudiaethau ffilm a gwneud ffilm yn y cwricwlwm ac mewn cyrsiau Astudiaethau Ffilm a'r Cyfryngau. Mae awgrymiadau ar sut i ddefnyddio golygfeydd penodol ar dudalennau 8-11.

*Tystysgrif 12 sydd gan y ffilm, ond mae'r rhan fwyaf ohoni'n gymwys i'w defnyddio gyda phlant iau. Byddwch mor garedig â gwylio'r golygfeydd cyn eu dangos i'r disgyblion, a gofynnwch i'w rhieni am ganiatâd, pe bai angen.*

## Ysgrifennu mewn Cymraeg neu Saesneg

Mae sawl cyfle ar gael ar gyfer **ysgrifennu creadigol**. Byddai modd i chi ddechrau gyda hanes yr ymfudwyr o Gymru aeth i Batagonia, sy'n cael ei gyflwyno ar 00.32.26. Gallai'r myfyrwyr ddychmygu eu bod yn arloeswyr gan ysgrifennu straeon, dyddiaduron, cerddi neu ddramâu am eu profiadau.

Gallwch hefyd ddefnyddio dilyniannau fel hyn fel sail i **ysgrifennu ffeithiol,** e.e. erthyglau i gylchgronau neu bapurau newydd, neu ar gyfer tudalennau'r we, sy'n cynnig cyfle i ymestyn y gwaith ymchwil ymhellach fyth. Gallwch ganolbwyntio ar hanes y mwyngloddio a'r amgylchedd ar 01:04:02, neu ar y berthynas rhwng y Cymry a'r Indiaid ar 00:56:18. Gallai'r myfyrwyr hefyd ysgrifennu adolygiad ar y ffilm gyfan.

## Cymraeg

Mae'r ffilm yn cynnwys cyfweliadau, deialog a chaneuon yn Gymraeg. Gallwch eu defnyddio i ymchwilio i eirfa a thafodiaith, ac ymarferion dealltwriaeth.

Mae Gruff yn siarad Cymraeg â thafodiaith y Gogledd. Gwelir enghraifft o hyn ar 00:05:05. Gall y myfyrwyr geisio adnabod y geiriau sy'n perthyn yn benodol i dafodiaith Gogledd Cymru, e.e. *hogyn, nain, deud, fo*.

Mae golygfa 'Cyfri'r Geifr' ar 00:12:10 yn canolbwyntio ar hwiangerdd o Gymru sy'n cael ei defnyddio'n aml gyda'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Mae'n defnyddio geiriau Cymraeg am liwiau, fel gwyn, coch, du, glas a phinc. Mae'n her i'w hadrodd gan fod yn rhaid mynd yn gynt ac yn gynt wrth i'r gân fynd rhagddi.

Mae caneuon Gruff ei hun yn amlwg ar adegau arbennig o'r ffilm. Gallwch wrando am eiriau penodol: er enghraifft, rhowch restr o eiriau i'r dysgwyr a gofyn iddynt danlinellu'r rhai maent yn eu clywed yn y dilyniant. (Mae enghreifftiau da ar gael yn Yn y Trofannau ar 00:18:30, Ni yw'r Byd ar 00:48:33, Gyrru ar 01:01:11, Y Mynydd Hud ar 01:18:20)

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

## Hanes

Gallwch ddefnyddio dilyniannau fel y cyfweliad ar 00:08:44 fel man cychwyn i ymchwilio i hanes lleol, neu i edrych ar goeden deulu.

Gallwch hefyd edrych ar hanes Cymru, gan ddefnyddio'r cyfweliad gyda Dewi Prysor ar 00:10:51, ble mae'n egluro pam y bu i gymaint o bobl ymfudo yn y 19eg ganrif. Gallwch hefyd ystyried dehongliadau hanesyddol: beth yw ei safbwynt arbennig ef, ac a oes digon o dystiolaeth i gefnogi ei ddehongliad?

## Celf a Ffotograffiaeth

Mae nifer o ddilyniannau collage aml-ddelwedd yn y ffilm, e.e. ar 00:48:38. Gwnaethpwyd y rhain gan ddefnyddio rhaglen effeithiau fideo proffesiynol, ond gallwch hefyd edrych ar waith artistiaid a ffotograffwyr sydd wedi defnyddio technegau tebyg â delweddau llonydd, e.e. Duane Michaels, Erich Spahn ac Eadward Muybridge.

Gallwch hefyd edrych ar sut y gall delweddau llonydd gael eu cyfuno gyda cherddoriaeth a synau i greu dilyniannau ffilm dramatig: mae enghraifft o'r dechneg *kinestasis* yma ar gael yn y dilyniant ar Trelew sy'n dechrau ar 00:38:35.

## Y Bac Cymraeg: Cymru, Ewrop a'r Byd

Gallwch edrych ar y tebygrwydd a'r cyferbyniadau sy'n bodoli rhwng Cymru a De America, e.e. ar 01:04:02. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr Andes a thref Esquel, gan ystyried effeithiau mwyngloddio, globaleiddio a'r gwrthdaro sy'n bodoli rhwng twf economaidd a gwarchod yr amgylchedd.

## Ieithoedd Modern Tramor: Sbaeneg

Mae sawl cyfweliad ar gael yn Sbaeneg. Gallwch ddiffodd y sgrin (neu guddio'r is-deitlau) a'u defnyddio fel sail ar gyfer gweithgareddau dealltwriaeth. Edrychwch am eiriau penodol yn y cyfweliad, neu holwch gwestiynau am yr hyn mae'r person sy'n cael ei gyfweld yn ei ddweud.

Mae'r Sbaeneg hawsaf ar gael yn y cyfweliad gyda Carlos Dante Ferrari ar 00:50:22. Mae'r cyfweliad gyda Santiago Farina ar 00:56:52 yn gyflymach ac yn fwy heriol.

## Astudiaethau Ffilm ac Astudio'r Cyfryngau

- Ystyriwch sut mae 'nodweddau meicro' yn cael eu defnyddio wrth wneud ffilm, fel saethiadau o wahanol faint, golygu, effeithiau, sain gynefin ac anghynefin yn y dilyniant agoriadol.
- Edrychwch ar y ffilm yng nghyd-destun adran **Y Gwyliwr a Dogfen** sy'n rhan o Astudiaethau Ffilm Lefel A. Byddai modd ei chymharu â **dogfennau gan awduron** eraill, neu ei chyferbynnu ag enghreifftiau o **sinema uniongyrchol** neu **sinema verité**.
- Edrychwch ar sut y mae elfennau o'r ffilm yn glytwaith o genre y 'spaghetti western', e.e. yn yr olygfa gyntaf un defnyddir cerddoriaeth yn null Ennio Morricone, y dechneg o dynhau a llacio'r lens, y dechneg o arafu lluniau, a saethiad agos eithafol.
- Defnyddiwch y ffilm i archwilio'r gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng dweud stori mewn dogfen ac mewn drama, drwy ei chymharu â ffilm Marc Evans, Patagonia, sydd hefyd yn defnyddio'r dull o 'fynd ar drywydd' rhywbeth.

# Golygfeydd allweddol

Dyma rai enghreifftiau o olygfeydd penodol, a sut y gellid eu defnyddio mewn meysydd addysgol gwahanol.

## Y ras geffylau (00:00:00)



Mae'r olygfa yma'n ail-greu ras geffylau yr honnir iddi ddigwydd yn y 19eg ganrif, ac a arweiniodd at i un o gyndeidiau Gruff adael Cymru. Rhybudd: mae'r diwedd braidd yn waedlyd.

Gallwch ei defnyddio i

- Ddysgu iaith ffilm a sut i wneud ffilm mewn gwersi Saesneg neu Astudiaethau'r Cyfryngau - addas i CA2 hyd at wedi 16 mlwydd oed
- Ysgrifennu straeon creadigol o Blwyddyn 5 i fyny
- Ysgrifennu straeon ffeithiol neu straeon newyddion o Blwyddyn 5 i fyny.

*Ar dudalennau 13-19 mae disgifiad manwl o'r olygfa hon ac awgrymiadau ar sut i'w defnyddio yn y dosbarth.*

## Cyfweliadau Radio (00:07:20)

Cynhelir cyfweliadau radio gyda Gruff, er mwyn cyflwyno'r stori, yn Saesneg ac yn Gymraeg. Gallwch eu defnyddio fel sail ar gyfer gweithgareddau llythrennedd o Blwyddyn 5 i fyny, e.e.

- Ysgrifennwch nodiadau o'r cyfweliadau a'u hail-ysgrifennu fel stori newyddion ar gyfer papur lleol neu ar gyfer gwefan
- Cynllunio a chynnal cyfweliad clywedol neu fideo gydag unigolyn diddorol yn yr ysgol neu'r ardal leol.

## Cyfweliad gyda Beryl Griffiths (00:08:49)

Mae Gruff yn cyfweld â'i Anti Beryl yn Gymraeg i ddysgu rhagor am stori Rene Griffiths. Mae'n sôn am hanes y teulu. Gallwch ddefnyddio hyn yng nghwricwlwm Hanes Cyfnod Allweddol 2, e.e.

- Cyflwyno'r syniad o goeden deulu
- Archwilio hanes eich teulu eich hun
- Darganfod o ble ddaeth teuluoedd y plant eu hunain, a pham y bu iddynt symud i'r ardal
- Darganfod unrhyw stori gyffrous sydd wedi digwydd i deuluoedd y plant.

## Cyfweliad gyda Dewi Prysor (00:10:48)




Mae'r awdur a'r hanesydd, Dewi Prysor, yn siarad am hanes Cymru yn y 19eg ganrif, a pham y bu i gymaint o bobl fudo o'r wlad. Gallwch ddefnyddio'r olygfa yma wrth ddysgu Hanes i Gyfnod Allweddol 2/3 a Cymraeg i CA3, e.e.

- 'Dealltwriaeth' a thrafod mewn gwersi Cymraeg. Cuddiwch y sgrin neu'r is-deitlau. Gofynnwch pam oedd pobl eisiau mudo.
- Dehongli hanes. A yw barn Dewi Prysor yn ddiduedd? Faint o dystiolaeth sydd ar gael i'w gefnogi?

## Cyfri'r Geifr (00:12:10)

Gallwch ddefnyddio'r olygfa yma, sy'n canolbwyntio ar gân Gymraeg draddodiadol, mewn gwersi Cymraeg ac Addysg Gorfforol yng Nghyfnod Allweddol 2, ac fel sail ar gyfer gwneud ffilm, e.e.


- Defnyddiwch y gân i gryfhau/gadarnhau geiriau a sgiliau llefaru Cymraeg
- Dyfeisiwch ddawns sy'n seiliedig ar gân neu hwiangerdd.

## Yn y Trofannau (00:18:30)

Mae Gruff yn canu ei gân 'Yn y Trofannau', e.e.

- Defnyddiwch hon ar gyfer gwrando a 'dealltwriaeth' mewn gwersi Cymraeg Cyfnod Allweddol 2 a 3.
- Sawl gair gall y disgyblion eu clywed sy'n dechrau gyda'r llythyren G? Beth yw ystyr y geiriau?

## Trelew: y drefedigaeth Gymraeg gyntaf (00:32:34)




Yn y fan hon ceir hanes yr ymfudwyr cyntaf i Batagonia a'u profiadau. Gallwch ei defnyddio ar gyfer dysgu Hanes yng Nghyfnod Allweddol 2, ac ar gyfer ysgrifennu ffeithiol a ffuglen mewn gwersi Cymraeg a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3, e.e.

- Ysgrifennwch hanes y daith fel erthygl papur newydd
- Ysgrifennwch ddyddiadur plentyn yn ystod y daith
- Ysgrifennwch stori ffuglen neu ddarn o farddoniaeth sy'n disgrifio profiadau'r ymfudwyr
- Defnyddiwch y dilyniant fel model ar gyfer gwneud ffilm am hanes lleol.

## Cyflafan Trelew (00:38:30)

Mae'r dilyniant yma'n disgrifio sut y lladdwyd nifer o wrthwynebwyr ifanc gan filwyr yr Ariannin, yn union cyn i'r coup a'r rhyfel brwnt ddigwydd. Gallwch ei ddefnyddio mewn gwersi ABCh, mewn gwersi Celf a gwersi Ieithoedd Tramor (Sbaeneg - CA3 ac uwch), e.e.

- Archwiliwch hanes America Ladin ac unbenaethau milwrol
- Edrychwch ar y dechneg 'kinestasis' wrth olygu delweddau llonydd i gyd-fynd â thrac sain
- 'Dealltwriaeth' Sbaeneg (anodd): cyfweliad gyda'r gwneuthurwr ffilm Mariana Arruti.

## Dolafon (00:50:20)

Cyfweliad gyda'r cerddor Carlos Dante Ferrari, sy'n siarad Sbaeneg gweddol syml. Gallwch ddefnyddio hwn fel gweithgaredd gwrando a deall ar gyfer dyddiadau a rhifau drwy orchuddio'r sgrin neu guddio'r is-deitlau, e.e.

- Pa flwyddyn ffurfiwyd y grŵp?
- Sawl person sydd yn y grŵp, a sawl un sy'n dod o linach Cymraeg?

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

## Paso de Indios (00:56:24)

Mae'r olygfa hon yn edrych ar y berthynas rhwng y Cymry a'r Indiaid. Gallwch ei defnyddio er mwyn astudio Cymru, Ewrop a'r Byd, a hefyd ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu ffeithiol ac ymchwilio, e.e.

- Ysgrifennu ffeithiol: ysgrifennwch erthygl am hanes y Cymry a'r Indiaid ym Mhatagonia
- Archwiliwch beth ddigwyddodd i'r Americaniaid brodorol eraill.

## Esquel (1:07:30)




Mae'r olygfa yma'n trafod effeithiau mwyngloddio ar gymuned yn yr Andes.
*(Rhybudd: mae poster o ferch noeth yng nghefndir y cyfweliad â Rini Griffiths.)*

Gallwch ddefnyddio hwn yng Nghyfnod Allweddol 3 ac uwch wrth ddysgu Daearyddiaeth, wrth astudio Cymru, Ewrop a'r Byd, ac mewn gwersi Ieithoedd Tramor Modern, e.e.

- Trafodwch y cyffelybiaethau sy'n bodoli rhwng Cymru a De America
- Archwiliwch effaith globaleiddio.

Cyfweliad yn Sbaeneg: defnyddiwch ar gyfer gweithgareddau 'dealltwriaeth' ac i drafod nodweddion Sbaeneg America Ladin.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Syniadau ar gyfer gwneud ffilmiau


Gallwch ddefnyddio rhai o'r dilyniannau sydd yn Separado! i ysgogi'r disgyblion i wneud eu ffilmiau eu hunain.

## Ail-greu

Fel rhan o'r gwersi Hanes neu Drama gall y disgyblion gynllunio a chynhyrchu ffilm sy'n ail-greu rhyw ddigwyddiad neu'i gilydd, gan gymryd golygfa'r 'ras geffylau' ar ddechrau Separado! fel enghraifft.

*Rhybudd: mae'r dilyniant yn gwneud defnydd bwriadol o gamera llaw a chwyddo er mwyn creu cyffro. Mae hyn yn llwyddiannus gan fod golygydd/cyfarwyddwr y ffilm mor brofiadol, ond ni ddylid annog myfyrwyr i ddefnyddio'r technegau hyn.*

- Dewiswch enghreifftiau sy'n hawdd eu trin - nid Armada Sbaen!
- Sicrhewch fod y ffilm yn un fer
- Treuliwch ddigon o amser yn cynllunio: ysgrifennu'r stori, creu cynlluniau-meddwl, cynhyrchu byrddau stori, ymchwilio
- 'Dangos, dim dweud': defnyddiwch luniau, cerddoriaeth ac effeithiau sain yn hytrach na deialog
- Defnyddiwch saethiadau o wahanol faint:  saethiadau agos, canolig a hir
- Crëwch y trac sain yn eich rhaglen olygu yn hytrach na'i recordio'n fyw
- Peidiwch â saethu gormod o ddeunydd, tociwch eich saethiadau 'bob pen' (cyfrwch i bump cyn i unrhyw weithred ddigwydd, ac eto ar ddiwedd pob gweithred)
- Peidiwch â defnyddio cerddoriaeth neu ddelweddau sydd ag hawlfraint yn perthyn iddynt.  Crëwch eich cerddoriaeth eich hun i sicrhau nad oes unrhyw hawlfraint ar unrhyw ddarn o gerddoriaeth yr ydych am ei ddefnyddio.




*Storifwrdd gwreiddiol Gruff Rhys i'r dilyniant teitl*

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Gwneud ffilm hanes

Gall y myfyrwyr ddefnyddio un o'r dilyniannau ffeithiol o'r ffilm fel patrwm ar gyfer eu ffilmiau personol am hanes lleol. Er enghraifft, gallai'r dilyniant am hanes lleol ar 32:24 ffurfio sail i gyfweliad am hanes eu hardal leol nhw. Gallant ddewis stori ddiddorol neu ddigwyddiad arbennig o'r ardal, ac astudio sut i wneud ffilm fer amdani/o. Gallai hyn gynnwys cyfweliadau, gwaith trosleisio, delweddau archif, delweddau cyfoes, a cherddoriaeth.

- Byddwch yn gwbl glir ynglŷn â phwnc y ffilm, gan ganolbwyntio ar *un* agwedd benodol. (Os yw'r dosbarth cyfan yn gweithio ar y prosiect, gallant wneud hyn mewn grwpiau, gyda phob grŵp yn trin gwahanol agweddau).
- Cadwch y cyfan yn fyr:  mae munud neu ddwy yn hen ddigon i bob ffilm.
- Cofiwch ymchwilio a darganfod cymaint ag sy'n bosib am y pwnc.
- Penderfynwch pwy allwch eu cyfweld, a pha gwestiynau i'w gofyn. Canolbwyntiwch ar beth, pwy, ble, pryd, pam, sut - a gofynnwch gwestiynau 'agored': sef, cwestiynau lle nad yw'n bosib ateb drwy ddweud 'ie', neu 'na' yn unig.
- Mae'n debyg y bydd angen i chi olygu'r rhan fwyaf o'r cyfweliadau. Edrychwch arnynt yn ofalus a dewis y rhannau mwyaf diddorol a pherthnasol o'r hyn sy'n cael ei ddweud. Efallai mai darn bach iawn o'r cyfweliad fydd hynny. Bu i'r cyfweliad gyda Dewi Prysor bara am awr, ond ychydig funudau'n unig sydd i'w gweld yn y ffilm.
- Penderfynwch sut y byddwch yn cyflwyno'r cyfweliadau. Mae'r rhan fwyaf o raglenni golygu yn eich galluogi i ychwanegu 'rhyngdoriadau' (cutaways), ble mae'r sain yn parhau ond mae delwedd newydd - fel ffotograff neu fideo - yn darlunio'r hyn mae'r siaradwr yn sôn amdano. Gallwch ddefnyddio ffotograffau archif, eich lluniau neu baentiadau personol, neu fapiau. Gallwch hefyd ffilmio mewn lleoliadau sydd i'w gweld yn y stori.  Gydag unrhyw un o'r rhain, gall eich rhaglen olygu ganiatáu i chi dorri'r ddelwedd ac ychwanegu symudiad, sy'n ei gwneud yn fwy diddorol fyth. Sicrhewch fod y ddelwedd wedi ei chopïo neu ei sganio ar gydraniad uchel. Ceisiwch sicrhau fod y ddelwedd yn llenwi'r sgrin.
- Sicrhewch fod gennych hawl i ddefnyddio pob delwedd a darn o gerddoriaeth. Os ydych am ddefnyddio Mapiau Ordnans rhaid i chi wneud cais am drwydded, gellir ei chael yn rhad ac am ddim yma: www.ordnancesurvey.co.uk/oswebsite/about-us/media-centre/media-licences.html
- Dylech benderfynu sut y byddwch yn uno gwahanol rannau eich ffilm at ei gilydd.  Oes angen i chi ychwanegu eich troslais eich hun? Peidiwch â cheisio recordio hwn wrth ffilmio, ychwanegwch ef yn ystod y broses olygu

Os ydych yn ysgrifennu eich troslais eich hun, sicrhewch mai eich geiriau eich hun 'rydych yn eu defnyddio yn hytrach na chopïo unrhyw eiriau o'r rhyngrwyd neu lyfrau. Un ffordd o wneud hyn yw darllen y wybodaeth yn gyntaf, yna ysgrifennu'r ffeithiau ar ffurf 'pwyntiau bwled', ac yna'u defnyddio fel sail i'ch troslais. Darllenwch y darn yn uchel i gael gweld os yw'n dderbyniol. Gan amlaf bydd angen i bwy bynnag sy'n cyflwyno siarad yn arafach, yn uwch a gan bwysleisio rhai geiriau'n fwy nag arfer.

# Ffilm a storïau

Gallwch ddefnyddio'r olygfa agoriadol – sy'n wahanol iawn i weddill y ffilm – i ddysgu sut mae ffilm yn dweud stori, a sut y gall ysgogi rhywun i ysgrifennu stori. Gan fod yr olygfa'n para llai na dwy funud, gellir ei defnyddio'n hwylus yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r olygfa hon yn agor â llun o fynyddoedd; yna gwelir mynwent eglwys ble mae dau gymeriad mewn dau glogyn a dwy het ddu yn agosáu at geffylau sydd wedi eu clymu.  Maent yn herio'i gilydd.  Maent am gynnal ras geffylau, ac wrth i'r ras fynd rhagddi gwelwn ddau gymeriad arall yn tynnu rhaff ar draws y trac. Yn y diwedd mae un ceffyl yn taflu ei farchog; ymddengys ei fod wedi ei ladd.

*Mae'r rhan fwyaf o blant blwyddyn 5 ac uwch yn mwynhau gwylio a sgwrsio am yr olygfa hon, ond nid yw'n addas i blant ifanc iawn. Efallai y gall yr olygfa codi ofn ar blant sydd ar y sbectrwm awtistig.*

## Gwrando

Gallwch ddechrau drwy wrando yn unig (drwy orchuddio neu ddiffodd y sgrin) fel sail i ragfynegi ac ysgrifennu. Gweler tudalen 19.

## Adnabod y saethiadau

Gallwch chwarae'r dilyniant cyfan a gofyn i'r myfyrwyr ddyfalu pa mor hir yw'r dilyniant, yna gofyn iddynt sawl gwahanol saethiad sydd ynddo. Mae hyn yn ddefnyddiol i dynnu eu sylw at y ffaith fod ffilmiau'n gymhleth.  Yna gallwch drafod pam fod cymaint o saethiadau yn y darn, ac yna edrych ar y gwahanol fath o saethiadau a ddefnyddiwyd.

## Saethiadau a stori

Gallwch chwarae'r dilyniant fesul saethiad, gan seibio ar saethiadau unigol ac edrych ar y gwahaniaethau rhyngddynt.  Gallwch drafod sut mae 'maint y saethiadau' yn adlewyrchu'r ysgrifennu.  Er enghraifft, mae'r saethiadau cychwynnol yn cyflwyno'r lleoliad, yr un fath ag y mae brawddeg agoriadol unrhyw stori yn ei wneud. Mae'r saethiad hir wedyn yn cyflwyno'r cymeriadau i'r lleoliad, ac mae'r saethiadau agos ac agosach fyth yn ein galluogi i weld y cymeriadau'n glir, a'r hyn maent yn ei wneud. Mae rhagor o fanylion am rai o'r saethiadau a ddefnyddiwyd yn y dilyniant ar dudalennau 16-18, yn ogystal â matrics sy'n dangos pob saethiad yn y dilyniant.

## Ysgrifennu

Gallwch ddefnyddio'r dilyniant yma fel sail i ysgrifennu stori ffuglen, adroddiad ar gyfer y newyddion, neu ddarn o farddoniaeth. Pa dechnegau ysgrifenedig y gellir eu defnyddio i gyfleu'r awyrgylch a'r cyffro? Gallwch chwilio am gerddi sy'n disgrifio rasys ceffylau.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Saethiadau a stori



Mae sawl gwahanol fath o saethiad yn y dilyniant agoriadol. Gallwch edrych ar y rhain bob yn un drwy seibio'r DVD o dro i dro. Gall y myfyrwyr ddisgrifio'r saethiad yn fanwl ac yna ystyried pam y ffilmiwyd y saethiad yn y modd arbennig yna, a beth fyddai'r dull cyfatebol mewn stori ysgrifenedig. Gallwch ddefnyddio 'maint y saethiadau' i atgoffa'r disgyblion wrth iddynt fynd ati i ysgrifennu straeon.

## Pob saethiad

Ar gefn y llyfryn mae dau dulalen sy'n cynnwys pob saethiad yn y dilyniant. Gallwch dorru hyn i luniau ar wahân a gofyn i'r myfyrwyr roi'r cyfan mewn trefn ac egluro'r rhesymau am eu penderfyniad.

Gallwch islwytho taflen gwaith 8 tudalen o **learnaboutfilm.com/pdf/SEPARADO-SHOTS.pdf**

Gallwch ofyn i fyfrwyr ysgrifennu nodiadau er mwyn egluro'r hyn sydd ym mhob saethiad, a pham y'i defnyddiwyd.

## Golygu ac effeithiau

Mae nifer o effeithiau'n cael eu defnyddio yn y broses olygu er mwyn ychwanegu cyffro i'r olygfa: mae yma doriadau naid - ble mae dau saethiad tebyg iawn yn cael eu golygu at ei gilydd - gwaith camera llaw crynedig, a'r dechneg o chwyddo/tynhau'r lens. Defnyddir hefyd effeithiau i arafu symudiad, cyflymdra caead araf - sy'n pylu rhai saethiadau - effaith 'hen ffilm wedi ei sgriffio', a saethiadau sy'n fwriadol allan o ffocws. Maent hefyd wedi defnyddio golygu cyfochrog, neu maent wedi trawstorri, gan ddangos yr hyn sy'n digwydd mewn dau le ar yr un pryd. Mae awduron yn defnyddio'r dechneg hon wrth ysgrifennu straeon o dro i dro.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Saethiadau fesul un




Mae'r olygfa agoriadol yn dechrau gyda *'saethiad lleoli'*. Mae'r *saethiad pell iawn* yma o'r mynyddoedd yn dangos y lleoliad.  Mae straeon yn aml yn dechrau fel hyn, e.e. "Roedd yn noson stormus, dywyll…"



Yna mae'n agosáu gan ddefnyddio *saethiad hir* i gyflwyno pobl i'r olygfa.




Yna 'rydym yn gweld y bobl a'r hyn maent yn ei wneud. Dyma *saethiad agos ganolig*.



Mae'r saethiad yma wedi ei chymryd o safbwynt weddol isel, sy'n cynnig persbectif dramatig. Gallwn weld y ceffylau, y marchogion, a'r tirwedd.

Fe'i saethwyd gan ddefnyddio lens *ongl lydan*, sy'n rhoi'r effaith gewch chi pan fo lens y camera'n agor allan yn llwyr.

Ar y cyfan mae'r prif gymeriadau a'r ceffylau'n symud o'r chwith i'r dde. Ymddengys hyn yn naturiol i gynulleidfaoedd y Gorllewin gan ein bod yn darllen o'r chwith i'r dde.



Mae effaith y saethiad *deleffoto* hon yn hollol wrthgyferbyniol. Dyma'r effaith gewch chi pan fo'r camera'n swmio'r holl ffordd i mewn.

Mae'r persbectif yn ymddangos yn fwy gwastad; fel edrych drwy delesgop, ac ychydig iawn o'r tirwedd sydd i'w weld.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 



Mae’r saethiad yma’n dangos y ceffylau’n rasio drwy’r coed.



Defnyddiwyd y dull arafu lluniau ar gyfer y saethiad hwn.



Wrth adeiladu at yr uchafbwynt mae’r ffilm yn torri rhwng saethiadau o’r ceffylau’n rasio...



…a saethiadau o’r dynion yn paratoi i ymestyn y rhaff ar draws y llwybr (*golygu paralel*).



Mae’r *mewnosodiad* yma’n dangos yn fanwl yr hyn mae’r dyn yn ei wneud.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 



Wrth i'r olygfa gyrraedd uchafbwynt mae'r golygu'n cyflymu. Mae ambell i saethiad, fel hwn gyda'r ceffyl yn gwallgofi, ar y sgrin am ganran o eiliad yn unig.



Mae'r *saethiad agos iawn* yma'n dangos rhan yn unig o wyneb y person.

 © 2015 Ffilm Cymru Wales 

# Gwrando

Gallwch guddio neu orchuddio'r sgrin a gofyn i'r myfyrwyr wrando ar y trac sain sy'n cyd-fynd â'r olygfa agoriadol, sy'n eithaf cymhleth.

Gallant wrando ar yr olygfa gyfan a gweithio mewn parau neu mewn grwpiau i drafod, e.e.

- yr hyn mae'n nhw'n feddwl sy'n mynd i ddigwydd yn yr olygfa
- pa fath o ffilm mae'n nhw'n meddwl sydd yma
- pa ddelweddau maent yn disgwyl eu gweld
- sut mae'r trac sain yn cyfleu hyn

A allant restru'r holl synau sydd yn y dilyniant? Gan ystyried y gerddoriaeth, pa fath o offerynnau sydd i'w clywed, a pham y defnyddiwyd yr offerynnau arbennig yna?

Gallwch ofyn iddynt ddweud beth yw'r synau, a gallwch eu gosod mewn dwy restr: synau 'real' (*cynefin*) fel lleisiau, carnau ceffylau a gwynt ar un rhestr; gwahanol fathau o gerddoriaeth (synau *anghynefin*) ar y rhestr arall. Yna gallwch drafod y gwahaniaethau sydd rhwng y ddwy restr. Gallwch ddangos i'r myfyrwyr y byddai'r holl effeithiau wedi eu hychwanegu wedyn: yr hyn sy'n eu gwneud yn 'gynefin' yw'r ffaith fod y gynulleidfa'n meddwl eu bod yn rhan go iawn o'r stori.

Gallwch hefyd chwarae'r trac sain fesul darn a gofyn cwestiynau amdanynt. Gallwch ofyn i'r myfyrwyr am *bobl, llefydd, amseroedd* a *stori*.

- Ble mae wedi ei lleoli?
- Pa fath o bobl sydd ynddi?
- Faint o'r gloch yw hi?
- Beth sy'n digwydd?
- Pa fath o stori sydd yma, a beth maent yn ei ddisgwyl i ddigwydd nesaf?
- Oes unrhyw beth yn rhan olaf y trac sain wedi peri iddynt newid eu meddwl?

Dyma rai pwyntiau allweddol i wrando arnynt:

**00.30 i 00.50** Clychau eglwys a gwynt. *Beth yw'r lleoliad? Pa fath o ffilm yw hi? A allant dynnu llun o'r olygfa? Oes modd iddynt ei hysgrifennu fel dilyniant agoriadol stori?*

**00.50-1.09** Sŵn traed a dynion yn chwerthin. *Ydi hyn yn newid eu syniad am y math o stori sydd yma? Pa iaith mae'r dynion yn ei siarad? Beth maent yn ei ddweud? Sut olwg sydd arnynt?*

**1.09-1.20** Cerddoriaeth 'spaghetti Western'. *Pa fath o gerddoriaeth sydd yma? Beth mae'n ei awgrymu am y stori a'r lleoliad?*

**1.20-1.25** Mae'r gerddoriaeth yn newid yn sydyn. *Beth mae hyn yn ei awgrymu? Pa fath o luniau maent yn disgwyl eu gweld? Beth sydd yn y gerddoriaeth sy'n awgrymu bod rhywbeth drwg ar fin digwydd?*

**1.25-...** Cerddoriaeth gyffrous, sŵn carnau ceffylau a dŵr yn tasgu. *Beth sy'n digwydd?*

**...- 2.25** Mae'r dilyniant yn gorffen gyda sŵn gweryru, sgrech, griddfan a chalon yn curo. *Beth sydd newydd ddigwydd?*



*Mae'r gerddoriaeth yn newid yn sydyn pan welwn y cymeriad yma (00:01:20).*

*Mae hyn yn gymorth i'r gwyliwr ddeall mai dihiryn yw hwn.*

*Gallai'r myfyrwyr ystyried pa dechnegau ysgrifenedig y gallant eu defnyddio i gyflwyno'r un syniad.*

# Cysylltau

**Separado!** www.separado.co.uk
Safle swyddogol y ffilm.

**iMDB** www.imdb.com/title/tt1505405/
Gwybodaeth am Separado! ar Gronfa Ddata Ffilm y Rhyngrwyd

**Trailer** www.separado.co.uk/trailer.html
Y rhaglun swyddogol

**S4C** www.s4c.co.uk/separado/c_index.shtml
Tudalen ar Separado! ar safle S4C

**Guardian** www.theguardian.com/film/2010/jul/29/separado-review
Adolygiad yn y Guardian

**The Gruffington Post** www.gruffrhys.com
Gwefan swyddogol Gruff Rhys

**ie ie productions** www.ieieproductions.com
Gwefan swyddogol ie ie productions

**Ffilm Cymru Wales** www.ffilmcymruwales.com
Ffilm Cymru Wales, a gyfranodd cyllid at y ffilm (a'r adnodd dysgu hwn)

**Soda Pictures** sodapictures.squarespace.com/r-z/separado?rq=separado
Gwybodaeth am y DVD

**Cyfweliad** vimeo.com/14459828
Cyfweliad ar fideo gyda Gruff Rhys a'r cyfarwyddwr Dylan Goch

**Canllawiau gwneud ffilmiau** learnaboutfilm.com/school-filmmaking-guides/
Canllawiau gwneud ffilmiau yn y dosbarth am ddim gan Into Film


© 2015 Ffilm Cymru Wales





























**Separado! © 2010** Defnydd addysgol yn unig




**Separado! © 2010** Defnydd addysgol yn unig